Archifau Gwent Archives

GWASANAETH ARCHIFAU ACHREDEDIG
ACCREDITED ARCHIVE SERVICE


TRIAL OF THE

CHARTIST CHIEF,

Zephaniah Williams

AT MONMOUTH, FOR

HIGH TREASON.

# Siartiaeth yn Sir Fynwy:
# Canllaw i Ffynonellau'r Siartwyr yn Archifau Gwent


Mr JOHN FROST.
CONDEMNED TO DEATH FOR HIGH TREASON,
Jany 8th 1840

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 2

**Ffynonellau'r Siartwyr yn Archifau Gwent** 3

**Rhestr o Ffynonellau/Ddogfennau** 3

Cofnodion Awdurdodau Lleol 3

Cofnodion Llysoedd Chwarter Sir Fynwy 4

Cofnodion Byrddau Gwarcheidwaid Sir Fynwy 6

Cofnodion Crefyddol 8

Cofnodion a Adneuwyd yn Breifat 10

Traethodau Hir heb eu Cyhoeddi 12

Casgliad Papurau Newydd 13

**Gwaith Wedi'i Gyhoeddi** 14

Erthyglau mewn cyfnodolion 14

Cyhoeddiadau Dethol 18

**Cofnodion a Gedwir mewn Lleoliadau Eraill** 22

Ffynonellau Ar-lein 22

**Geirfa** 23

**Cysylltu â ni** 24

# Cyflwyniad

Mudiad dosbarth gweithiol dros ddiwygio gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig oedd Siartiaeth, ac roedd ar ei fwyaf gweithgar rhwng 1838 a 1858. Cyfeiriai ei enw at Siarter y Bobl, a gyhoeddwyd yn 1838, a daeth yn un o'r mudiadau torfol gwleidyddol mwyaf yn hanes Prydain. Crëwyd Siarter y Bobl i wneud y system wleidyddol ym Mhrydain yn y 19eg ganrif yn decach ac yn fwy democrataidd. Roedd yn galw am:

- Bleidlais i bob dyn 21 oed neu'n hŷn
- Pleidlais Gudd
- Cael gwared ar yr angen i Aelodau Seneddol fod yn berchen ar dir
- Talu Aelodau Seneddol
- Etholaethau Cyfartal
- Etholiadau Seneddol Blynyddol

Roedd Siartiaeth yn boblogaidd iawn ymhlith y dosbarth gweithiol yng Nghymru a gwelwyd y mudiad yn ffynnu yng nghymoedd Sir Fynwy, un o'r ardaloedd diwydiannol mwyaf ym Mhrydain yn y 19eg ganrif. Yn 1838, cyhoeddodd John Frost, dilledydd dosbarth canol a chyn-Faer Casnewydd, ei gefnogaeth i Siarter y Bobl. Yn fuan wedi hynny, daeth yn arweinydd Siartwyr Sir Fynwy ac yn siaradwr dros achos y Siartwyr. Roedd ffigyrau pwysig eraill yn cynnwys Zephaniah Williams, Dr William Price, William Jones, John Rees (neu 'Jack the Fifer'), Feargus O' Conner a William Lovett; pob un ohonynt wedi cyfrannu i raddau amrywiol at Fudiad Siartwyr Sir Fynwy.

Cydnabyddir yn gyffredinol mai 'Gwrthryfel Casnewydd' yw'r gwrthryfel arfog mwyaf arwyddocaol ym Mhrydain yn y 19eg ganrif. Ar 4 Tachwedd 1839, gorymdeithiodd miloedd o Siartwyr lleol i Gasnewydd i brotestio dros hawliau gweithwyr y werin bobl ac i ryddhau cymrodyr a oedd wedi'u cadw yng Ngwesty'r Westgate. Roedd y Maer a'r milwyr yn aros amdanyn nhw a phan gyrhaeddon nhw, saethwyd ergydion a gwelwyd anrhefn ar y strydoedd. Cafodd o leiaf 50 o bobl eu hanafu'n ddifrifol a lladdwyd tua 22. Nid ydym yn gwybod beth yw'r union rif oherwydd claddwyd llawer mewn beddau heb enwau arnynt.
Casglwyd yr arweinwyr at ei gilydd a'u harestio a'u rhoi ar brawf yn Nhrefynwy. Dedfrydwyd John Frost, Zephaniah Williams a William Jones i gael eu crogi, eu tynnu a'u chwarteru. Ond, cymaint oedd dicter y cyhoedd nes y newidiwyd y ddedfryd i alltudiaeth i Dasmania. Cafodd y tri dyn bardwn yn 1856.
Dychwelodd John Frost i Brydain yn y pen draw a chafodd groeso arwr. Ymddeolodd i Fryste lle bu'n byw hyd nes iddo farw yn 1877, yn 93 mlwydd oed. Arhosodd Zephaniah Williams yn Nhasmania lle sefydlodd fusnes glo proffidiol a bu farw yn ddyn llewyrchus yn 1874. Arhosodd William Jones yn Awstralia hefyd, a bu'n trwsio watsys fel bywoliaeth. Bu farw'n dlawd yn 1873.

Ar wahân i'r Seneddau Blynyddol, mae'r rhan fwyaf o'r pethau yr oedd y Siartwyr wedi gofyn amdanynt bellach wedi'u gwireddu. Siartiaeth oedd mudiad dosbarth gweithiol annibynnol cyntaf y byd a'r tro cyntaf yr amlygodd protestio poblogaidd ym Mhrydain. Roedd yn gatalydd cymdeithasol a gwleidyddol dros newid ac, yn gyffredinol, mae'n cael ei gydnabod fel un o sylfeini democratiaeth fodern, nid yn unig ym Mhrydain ond mewn llawer o wledydd eraill ar draws y byd.

# Ffynonellau'r Siartwyr yn Archifau Gwent

Yng nghasgliadau Archifau Gwent mae yna ddeunyddiau sy'n berthnasol i astudiaethau am y Siartwyr sydd i'w gweld ymhlith cofnodion y canlynol:

- Llysoedd Chwarter Sir Fynwy
- Byrddau Gwarcheidwaid Sir Fynwy
- Llyfrau cofnodion Cyngor Bwrdeistref Casnewydd
- Cofnodion eglwysig, a
- Phapurau amrywiol a adneuwyd yn breifat.

Mae catalogau manwl ar gyfer y casgliadau, a dewis o ddeunyddiau mewn print sy'n gysylltiedig â Siartiaeth, ar gael ar y safle yn Archifau Gwent. Nod y canllaw hwn yw tynnu sylw at y dogfennau a'r ffynonellau hyn i'w defnyddio wrth astudio Siartiaeth a'r Siartwyr eu hunain. Darperir cyfeirnodau ar gyfer yr holl eitemau a restrir, a dylid defnyddio'r rhain wrth ofyn am weld dogfennau neu archebu copïau. Cysylltwch â ni yn enquiries@gwentarchives.gov.uk gydag unrhyw gwestiynau am fynediad i'r ffynonellau hyn.

# Rhestr o Ffynonellau/Ddogfennau

## Cofnodion Awdurdodau Lleol

Mae cofnodion awdurdodau lleol yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â llywodraethu'r ardal a'r cymunedau sy'n byw yno.

Gall y casgliadau hyn gynnwys cofnodion fel:

- Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor
- Cyfrifon a phapurau ariannol
- Gohebiaeth
- Papurau'r pwyllgorau gwahanol
- Mapiau a chynlluniau pensaernïol

Mae Llyfrau Cofnod Swyddogol Corfforaeth Casnewydd yn cynnwys cofnod ffurfiol o weithgarwch John Frost ym mywyd gwleidyddol yr ardal. Etholwyd Frost yn gynghorydd ar 21 Rhagfyr 1835 a bu'n faer o 1836 hyd 1837.

Mae casgliadau'r awdurdodau lleol yn Archifau Gwent yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol at Siartiaeth:

- **Comisiwn yn penodi John Frost yn Ynad Heddwch,** 17 Chwefror 1836 **(D43/6263)** a thrawsgrifiad llawysgrif o'r un fath **(D43/6264)**

- **Mae Llyfrau Cofnodion Cyngor Bwrdeistref Casnewydd,** 1836-1843 **(A1100/M/2)** a 1826-1850 yn rhoi manylion cyfraniad John Frost at wleidyddiaeth bwrdeistref Casnewydd yn ystod y cyfnod **(A1101/M/1)**

- **Cofnodion Arolygydd Deddf Goleuadau a Gwylio Trefddyn,**1836-1850 (cyfeiriad at sylwadau Uwcharolygydd yr Heddlu John Roberts ei fod yn disgwyl y byddai rhyddhau'r Siartydd William Shellard o'r carchar ym mis Mawrth 1841 yn creu tyrfa fawr... o'r graddau isaf **(A4332 / M/7)**



JOHN FROST, Esq.

One of her Majesty's Justices of the Peace for the Borough of Newport, Monmouthshire.

SIR,

The Working Men's Association respectfully request, that you will convene a Public Meeting of the Inhabitants of Newport, to take into consideration the principles contained in the People's Charter, and to consider the propriety of adopting the National Petition. The Association request that you will preside at the Meeting.

Association Room, [illegible]

*By order of the Meeting.*

In compliance with the request of the Association, I convene a Public Meeting of the Inhabitants of Newport and Pill, for the purposes stated in the requisition, to be holden in the large room at the PARROT INN, on *Tuesday Evening*, the 30th of October; I will take the chair at 7 o'clock precisely.

JOHN FROST.

Newport, [illegible]

To the Tradesmen of Newport.

TOWNSMEN,

Much of the evils of life proceeds from ignorant, corrupt, and oppressive men in authority. The object of the Working Men's Association, is, to place in the House of Commons able, honest, and industrious men. Is there a Tradesman in Newport who ought not to endeavour to further this object? Is there a Tradesman who would not be benefited could this design be effected? One Thousand Pounds a week are taken from this town in general taxes, would it be to the disadvantage of the Inhabitants if the one half were retained? What are the Tradesmen afraid that they would become too rich? Do they apprehend danger were they to keep the fruits of their labour? What has the Reform produced? There are the same men sitting in the House as sat there before the Reform bill passed, and the nation sees the same measures. Does any man expect that members put into the House of Commons by bribery, perjury, violence, drunkenness, will make laws favourable to the people? A bad system cannot produce good men, and the powerful Associations formed, and forming all over the kingdom intend to change the system. They do not look for Figs from Thistles. If the Tradesmen of Newport are favourable to the principles contained in the National Petition they will support it; if they believe that to pass the People's Charter would be injurious to the community, they will now have an opportunity of shewing its evil tendency. The time is fast approaching when there must be no neutrals; the question will be, who is for good and cheap Government, and who is against it. I respectfully, cordially invite the Tradesmen of Newport to support the principles contained in the People's Charter, or to shew that they are wrong.

*I am, faithfully your obedient Servant,*

JOHN FROST.



## Cofnodion Llysoedd Chwarter Sir Fynwy

Roedd y llysoedd chwarter yn llysoedd lleol a gynhaliwyd yn draddodiadol ar bedair adeg benodol bob blwyddyn yn Lloegr ar ôl y flwyddyn 1388. Cawsant eu hymestyn i Gymru yn dilyn y Ddeddf Cyfreithiau yng Nghymru neu'r Deddfau Uno yn 1535.

Byddai’r llysoedd chwarter yn rhoi gwrandawiad i amrywiaeth eang o achosion gan gynnwys byrgleriaeth, ymosod, meddwdod, potsio, crwydro, terfysg, torri pren yn anghyfreithlon, a llechfeddiannu. Y mathau o gosb a roddwyd gan yr ynadon oedd dirwyon, fflangellu, carchar ac alltudiaeth. Roedd y llys hefyd yn rhoi gwrandawiad i anghydfodau rhwng unigolion, er enghraifft peidio â thalu dyledion, ac roedd yn gyfrifol am weinyddu Deddf y Tlodion. Roedd nifer o faterion gweinyddol yn cael eu goruchwylio gan y llysoedd, gan gynnwys trwyddedu tafarndai, gosod lefelau cyflogau, a rheoli cofrestriad elusennau a thai cyfarfod anghydffurfwyr. Yn ogystal, roedd gan y llys

gyfrifoldeb dros oruchwylio’r gwaith o gynnal a chadw pontydd, carchardai a chosptai.

Mae casgliadau'r llysoedd chwarter yn Archifau Gwent yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol at Siartiaeth:

- **Calendrau Carcharorion** sy’n rhestru'r Siartwyr a oedd yn garcharorion ar dreial ar gyfer y Brawdlys Comisiwn Arbennig a gynhaliwyd yn Nhrefynwy rhwng 10 Rhagfyr 1839 ac 8 Ionawr 1840 **(Q/CALOFP/2)**

- **Calendr y Carcharorion** 27 Mehefin 1842, yn dangos enw’r carcharorion, William Parker, dyddiad y drosedd a disgrifiad byr o’r lladrad. Yn gysylltiedig â deponiad o ladrata William Shellard (Q/D/25/8). **(Q/CALOFP/4)**

- **Gohebiaeth Clerc yr Heddwch** sy’n cynnwys llythyr o ddeiseb at sylw ynadon Trefynwy a ysgrifennwyd gan arweinwyr y Siartwyr Henry Vincent, William Edwards a John Dickenson tra’u bod yng ngharchar Trefynwy am annog gwrthryfel ac ymgynnull i wrthryfela, 12 Hydref 1839 **(Q/COFPC/4/15)**

- **Cyfrifon y Crwner** yn dangos ffi'r Crwner am y Cwest a wnaed ar gyfer Siartwyr a laddwyd yng Ngwesty'r Westgate 'John’ [neu’n fwy cywir George] Shell, a naw dyn anhysbys ... a saethwyd yn y weithred o Wrthryfela, 6 Tachwedd 1839 **(Q/TV/36 Rhif 3)**

- **Datganiad** Zephaniah Williams i fod yn sicrwydd i Gymdeithas Gyfeillgar Undeb Bedwellty, 17 Ionawr 1831 **(Q/FSB/6/42)**

- **Deponiadau** Richard Rorke, yr hynaf, 27 Ionawr 1840 **(Q/D32/15ac16)** a Wright Beatty 8 Medi 1840 **(Q/D/34/28)** ar gyfer cyhuddiad o derfysg a chynllwynio

- **Deponiadau** William Shellard, crydd, ynghylch dwyn ei eiddo,1838, 1842 **(Q/D/25/8)**

- **Ditment (Q / I a P/259/20) a deponiad (Q / D / 31/41)** a gyflwynwyd yn erbyn Samuel Victory am gymell milwyr i encilio o'r fyddin i gefnogi Siartiaeth, 10 Hydref 1839

- **Ditment** ynghylch Zephaniah Williams am ymosodiad, 1832 **(Q/I a P/225/2 t.88)**

- **Ditment a Dyfarniad y Llys (Q/IaP/260/14 a Q/MB/11/ tudalennau 162,163,197)** am y cyhuddiad o derfysg a chynllwynio a wnaed yn erbyn y Rorkes (yr ieuengaf a’r hynaf) a Wright Beatty. Gweler hefyd Calendr y Carcharorion **(Q/CALOFP/4)** 19 Hydref 1840

- **Achosion cyfreithiol** yn gysylltiedig â ditment ar Zephania Williams am ymosodiad **(Q/MB/10 t.119)**

- **Achosion cyfreithiol ac asesiadau Deddf y Tlodion** yn ymwneud â John Frost, 1832 **(Q/MB/10 t.128)**

- **Mae Llyfr Arsylwadau'r Ynadon (Q/MG/2 a 17) a Dyddiadur Caplan y Carchar ac Adroddiadau'r Swyddog Meddygol i'r Llysoedd Chwarter (Q/PANDR/17/4 a 6)** yn cynnwys nodiadau byr am ymweliadau â charcharorion, cyflwr meddygol carcharorion y Siartwyr ac adroddiad am arferion crefyddol y Siartwyr fel Anghydffurfwyr gan fwyaf.

- **Cyfrifon masnachu** Zephaniah Williams yn llyfrau cyfrifon ansolfedd Coslett a Davies, 9 Mawrth 1931 **(Q/IDP / 52/2 t.6-7)**

- **Cyfrifon masnachu** Zephaniah Williams yn llyfrau cyfrifon Coslett, 1926 **(Q/IDP/43/ffolio17)**

- **Cyfrifon y Trysorydd (Q/MISCPTACC/3/1-33), Talebau'r Trysorydd (Q/TV/36) a Llyfrau Cofnodion (Q/MB/11 t.165)** ar gyfer cyfrifon ariannol cost 'Terfysgoedd Casnewydd' i Sir Fynwy, gan gynnwys cyfrifon ar gyfer y Cwnstabliaid Arbennig a gofrestrwyd yng Nghasnewydd. Mae'r cyfrif rhif 3/10 o gyfnod cyn y gwrthryfel ac yn ymwneud â gorchymyn a wnaed gan Capel Hanbury Leigh, Arglwydd Raglaw Sir Fynwy, am 1,000 o bolion cwnstabliaid ar gyfer Is-adran Pont-y-pŵl.

## Cofnodion Byrddau Gwarcheidwaid Sir Fynwy

Sefydlwyd Byrddau Gwarcheidwaid i wneud y gwaith bob-dydd o reoli Undebau Deddf y Tlodion a phob wyrcws a oedd ynddynt. Roedd rhai o aelodau'r Bwrdd yn aelodau yn rhinwedd eu swyddi, a rhai wedi eu hethol gan drethdalwyr. Dim ond yn 1894 y diddymwyd yr angen i fod yn berchen ar eiddo i ddod yn aelod o'r Bwrdd. Prif ddyletswyddau Bwrdd y Gwarcheidwaid oedd

- goruchwylio pob cymorth i'r tlawd (diddymwyd y cymorth ar gyfer y tu allan yn raddol dros y ddwy flynedd gyntaf)
- asesu ceisiadau am gymorth
- sefydlu wyrcws a'i gynnal a chadw
- cyfathrebu â Wardeniaid yr Eglwys ac Arolygwyr y Tlawd ym mhob plwyf yn eu hardal, a oedd yn gyfrifol am gasglu arian y trethi (amcangyfrifwyd y trethi yn wreiddiol yn ôl y galw ar bob plwyf, ond yn 1865 cyflwynwyd cyfradd ar gyfer yr Undeb)

Cyfarfu'r Bwrdd Gwarcheidwaid bob wythnos a byddent yn sefydlu pwyllgorau amrywiol i drafod materion penodol. Penododd y Bwrdd Gwarcheidwaid swyddogion parhaol, sef yn bennaf y swyddog cymorth a meistr y wyrcws, ond byddai swyddog meddygol, clerc i'r Gwarcheidwaid, trysorydd; caplan; a swyddogion amrywiol eraill yn ôl yr angen.

Mae casgliadau'r Bwrdd Gwarcheidwaid yn Archifau Gwent yn cynnwys y cyfeiriadau

canlynol at Siartiaeth:


- **Mae Cofrestr Derbyn a Rhyddhau Wyrcws Undeb Casnewydd,** 1839-1840 yn cynnwys manylion y Siartwyr a dderbyniwyd i Ysbyty'r Wyrcws gydag anafiadau o ergyd gwn **(CSWBGN/I/201)**

- **Mae Llyfr Llythyron Bwrdd Gwarcheidwaid Casnewydd,** 1836-1844 yn cynnwys cyfeiriad at orchymyn yr ynadon am feddiant gwasg argraffu John Partridge, cais am gymorth ar gyfer y tlawd gan wraig John Partridge, a cheisiadau eraill am gymorth yn ganlyniad i'r gwrthryfel. Mae yna hefyd drefniadau claddu – archebion am eirch - a wnaed ar gyfer Siartwyr a laddwyd **(CSWBGN/M5/48 t. 103-104)**

- **Llyfr Cofnodion Bwrdd Gwarcheidwaid Casnewydd,** 1836-1841 Etholwyd John Frost i bwyllgor y Gwarcheidwaid pan ddechreuodd ym mis Awst 1836. Ymgyrchodd Frost i'w drafodaethau fod yn agored i'r cyhoedd **(CSWBGN/M1/1)**

- **Llyfr Cofnodion Bwrdd Gwarcheidwaid Pont-y-pŵl,** 1839-1845 ynghylch lletya milwyr yn Wyrcws Undeb Pont-y-pŵl **(CSWBGP/M1/2)**

- **Mae Llyfr Cofnodion Bwrdd Gwarcheidwaid Y Fenni,** 1836-1841 yn cofnodi dyfarniadau'r gwarcheidwaid mewn perthynas â chymorth y gofynnodd teuluoedd y Siartwyr amdano ar ôl Gwrthryfel Casnewydd **(CSWBGA/M1/1 t.313, 315)**



## Cofnodion Crefyddol

Mae cofnodion yr Eglwys yng Nghymru yn cynnwys Cofrestrau Plwyfi sy'n cynnwys gwybodaeth am fedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau yn y plwyf lleol. Am gannoedd o flynyddoedd, roedd plwyfi yn hanfodol i lywodraeth leol ym Mhrydain. Roedd pob eglwys yn rheoli'r bobl yn ei hardal ac yn eu cofnodi.

Roedd y rhan fwyaf o eglwysi yn cadw cofrestrau o'r holl fedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau yn eu plwyfi. O deyrnasiad Harri VIII yn yr 16eg ganrif hyd nes y dechreuwyd cofrestru sifil ym 1837, y cofrestrau hyn oedd y cofnodion mwyaf cynhwysfawr o enedigaethau, priodasau a marwolaethau yn y wlad. Nid oedd gofyn i sefydliadau crefyddol eraill gofnodi bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau yn yr un ffordd, ond roedd llawer ohonynt yn gwneud hynny.

Gallai'r cofrestrau hyn o eglwysi a chapeli fod yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol am Siartwyr unigol. Isod mae cofnodion yr ydym yn gwybod amdanynt, a byddai'n werth chwilio cofrestrau eraill am wybodaeth:

- **Cofrestr Genedigaethau Capel y Bedyddwyr Argoed** 1797-1838, sy'n cynnwys manylion genedigaethau plant Joan a Zephaniah Williams; ac aelodau eraill o deulu Zephania Williams **(D6568/1).**

- **Cofrestr Claddedigaethau Eglwys y Plwyf Bedwellty** sy'n cofnodi claddu Jane Ferriday ar 22 Rhagfyr 1840, gyda nodyn sy'n dweud bod y tad wedi cael ei ladd yng Nghasnewydd yn nherfysgoedd y Siartwyr **(DPA14/21)**

- **Llyfr Cyfrifon ac Asesiadau Goruchwylwyr Eglwys y Plwyf Bedwellty** sy'n cynnwys asesiadau dosbarthiad ar gyfer eiddo Zephaniah Williams, 1826-1833 **(D796 (iii))**

- **Cofrestr Priodasau Eglwys y Plwyf Betws** - Mae cofnod rhif 42 yn cofnodi priodas John Frost a Mary Geach ar 24 Hydref 1812 (**DPA51/14)**


- **Eglwys y Bedyddwyr Saesneg, Trosnant, Pont-y-pŵl** - Mae'r llyfr cofnodion hwn yn cofnodi gwahardd William Wise, o Bont-y-pŵl, fel aelod o'r capel ar 12 Tachwedd 1839, am fod ormod ynghlwm ym mesurau terfysgwyr y Siartwyr **(D3598/1/1)**

- **Mae Cofrestr Genedigaethau a Bedyddiadau Capel Annibynnol Gobaith, Casnewydd,** yn cofnodi genedigaethau John, Elizabeth, Sarah, Catherine, Ellen, Henry Hunt, James ac Anne, plant John a Mary Frost, 1813-1826. Gwnaed cofnod hefyd yn 1836 ar gyfer genedigaeth Edward, mab Mary Jones, ym mis Rhagfyr 1827, a nodwyd nad oedd wedi ei eni o fewn y stad priodasol, sy'n gysylltiedig â Frost **(microffilm RG4).**

- **Cofrestr Claddedigaethau Eglwys y Plwyf Sant Gwynllyw Casnewydd** - mae'r cofnod ar gyfer 7 Tachwedd 1839 gan J. Taylor, curad, yn nodi claddu deg dyn y mae eu henwau yn anhysbys, a saethwyd gan fintai o'r 45fed

Gatrawd o Droedfilwyr yng Ngwrthryfel y Siartwyr o flaen Tafarn y Westgate Inn **(DPA100/36)**

- **Cofrestr Bedyddiadau Eglwys Gynulleidfaol y Tabernacl, Casnewydd,** sy'n cofnodi bedydd plant rhai o aelwydydd Siartwyr Casnewydd, sef Henry Vincent Williams (12 Mawrth 1840) a Catharine Frost Hill (16 Medi 1840). **Mae bedydd wyrion John Frost, sef plant Harry a Sarah Fry, hefyd yn cael** eu cofnodi yn 1842 **(D781/2).**



# Dreadful Riot

AND

## LOSS OF LIFE AT NEWPORT!

SUNDAY last (Nov. 3rd) the Mayor of Newport, Thomas Phillips, Jun. Esq., had intimation given him that the Chartists in great numbers were come to Newport that night. The special constables were ordered to meet at the Westgate, King's Head, and Parrot Inns, between 9 and 10 o'clock. The soldiers, about 60 or 70, a company of the 45th, were stationed at the new workhouse, and under arms during the night. The constables were on the watch all night, and up to six o'clock in the morning ten or a dozen men were taken before the magistrates; pistols, cutlasses, pikes, and other instruments, with powder and balls, were found on them. Upon their examination some little information was drawn from them as to the proceedings and intentions of the Chartists. About six o'clock in the morning the constables met a post chaise from Newport, and further information was gained from the driver, as he had been stopped by the Chartists all night; he was then just liberated from them, and said they had taken a road so as not to pass the workhouse and the soldiers. When this information was gained, twenty or thirty of the soldiers were sent to the Westgate Inn, where the magistrates were sitting. About nine o'clock the Chartists came down Stow hill six or seven deep, with their pikes and different shaped irons fixed on sticks from six to eight feet long; these were shouldered, as soldiers do fire arms. At the right and left of these men were those that carried fire arms; when they arrived before the Westgate Inn, a signal was given to fire, which was immediately obeyed, taking the whole front of the inn, at one fire. At the same moment the pikemen made a rush at the entrance door; it was attempted to be shut, but in vain. A great many special constables were in the house, who very quickly made their exit at the back part. The soldiers, who were stationed in a large room, now began to play their part, and in about twenty minutes the work of destruction was finished, the soldiers had done their duty, and the Chartists were running in all directions, leaving several hundreds of their weapons, and nine dead men behind them. Many were wounded severely and have since died, making as far as can be ascertained,

## Twenty Killed, and Fifty Wounded!

The scene, after the affray at the Westgate, was horrible to look at. The Mayor, Mr. Edward Morgan, draper, (brother of Mr. Paul Morgan, Grocer, Monmouth) Mr. H. Williams, Ironmonger, a sergeant of the 45th, and one soldier were wounded, but they are all at present in a fair way of recovery. One hundred pounds reward was offered by the magistrates for the apprehension of John Frost, who stood charged with high treason. About ten o'clock at night John Frost, John Partridge, and C. Waters were arrested at Partridge's house, situate at the top of Pentonville, in Newport. They were taken by Mr. T. J. Phillips, and Stephen Rogers, a grocer. On a search being made, nine pistols, with a good supply of powder and balls, were found upon them. A man named Lovell, a gardener, was arrested in bed, and brought to the Westgate Inn. Lovell had received a shot in the thigh; he and Waters have been very active Chartists.

The whole of the front of the Westgate was smashed in, the windows being boarded half way up; above the wood work appeared the grim forms of the military with their loaded carbines commanding the street to the right and left. The staircases and the lower rooms are perforated in many places by bullets, and in the stables were the bloody corpses of the unhappy rioters.

Shortly after ten o'clock on Wednesday morning, Frost and Waters, in separate carriages, attended by constables in each, and surrounded by a body of Lancers, came up Monnow-street, and proceeded to the jail. They were fully committed on a charge of HIGH TREASON! Frost appeared pale and haggard. He had with him a carpet bag, which was searched by the direction of the magistrates. He asked for a volume of Burn's Justice, and also for pen, ink, and paper, and was told that his request would be taken into consideration by the magistrates. The other prisoner is a young man, tall and athletic, he is a ship carpenter by trade, and seemed to be rather unconcerned at the whole business. There was at the time a large guard of pensioners and staff at the jail.

Up to this time (Tuesday, Nov. 12th) eight prisoners in all have arrived. Between thirty and forty prisoners yet remain to be examined at Newport, so that the arrival of others may be hourly looked for. Frost's wife and daughter have been permitted to see him, but the interview took place in the presence of the governor of the jail. The bodies of ten of the rioters were buried on Thursday evening in St. Woollos' churchyard.

Eight companies of foot are expected in the county, also a troop of horse, two field pieces, and gunners to the town.

HEATH, PRINTER, MONMOUTH.

## Cofnodion a Adneuwyd yn Breifat

Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion teuluol, unigolion, busnes, maenorol ac ystadau. Maen nhw'n gallu amrywio o un llythyr i archif ystâd fawr â thipyn o dir sy'n cynnwys miloedd o eitemau ac yn rhychwantu cyfnod o 300 mlynedd. Mae'r term 'cofnodion maenorol' yn cwmpasu ystod eang o ddogfennau, o gofnodion ffurfiol llysoedd maenor i ohebiaeth, mapiau a chynlluniau a chofnodion ariannol. Fel archifau sy'n cofnodi trafodion bob-dydd mewn cymunedau lleol, maen nhw'n dod â ni'n agos at bobl yn y gorffennol ac mae ganddynt botensial sylweddol ar gyfer hanes y teulu a hanes lleol. Yn aml, mae papurau ystâd yn cynnwys cyfresi fel adroddiadau a chyfrifon goruchwylwyr, cofrestrau rhent a thaciau [prydlesi], manylion gwariant aelwydydd, a datblygu mwynau.

Mae'r Casgliadau a Adneuwyd yn Breifat yn Archifau Gwent yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol at Siartiaeth a'r rhai a fu'n gysylltiedig â gweithgarwch y Siartwyr:

- **Nodiadau Bywgraffyddol** gan gyfranwyr i ddigwyddiad Cyndeidiau o Blith y Siartwyr a gynhaliwyd yng Nghasnewydd yn 2007, am Siartwyr Sir Fynwy William Ferriday (gan Rhys Jenkins); John Lovell (gan Rita Catton a Valerie Gordon); Wright Beatty (gan Sylvia Taylor) a James Horner (gan Patricia Horner) **(Llyfrgell/1428)**

- **Llyfr Cofnodion Cwmni Blaenafon (Blaenavon Company),** sy'n nodi'r datganiad bod cynnwrf y Siartwyr wedi digwydd gyda'r cyflogau uchaf a welwyd erioed ar y bryniau hyn **(D751/356)**

- **Y Siartwyr yng Nghasnewydd -** printiau a phapurau newydd o gyfnod y Siartwyr a llyfryn gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Amgueddfa Casnewydd, 1995 **(D5897/16)**

- **Poster Drama Lwyfan Terfysgoedd y Siartwyr,** 1934 **(D6334)**

- **Cyhoeddiadau coffaol ar gyfer 150-mlwyddiant Gwrthryfel y Siartwyr, (D3784/146)** yn cynnwys rhaglen ar gyfer 'opera'r bobl', The forbidden hymn – the story of Chartism, South Wales Argus, 'The Chartists' a dyddiadur o ddigwyddiadau coffaol o fis Chwefror hyd fis Tachwedd 1989

- **Cofrestru marwolaeth a chofnod troseddwr** ar gyfer William Lloyd Jones a ddaliwyd yn Swyddfa Archifau Tasmania 1840-1873 **(MISCMSS/2004)** (llungopïau)

- **Dogfennau a phapurau** yn ymwneud â dal Zephania Williams ar fwrdd y 'Vintage' ar 21 Tachwedd 1839 a'i fywyd ar ôl hynny yn Van Dieman's Land yn ogystal â dihangfa John Rees 'Jack the Fifer' i America **(MISCMSS/2076/1–3)** (llungopïau)

- **Taflen** ar gyfer cinio coffaol y Siartwyr, tua 1972, ac ar y cefn mae atgynhyrchiad o brint llun/darlun J F Mullock o Ymosodiad y Siartwyr ar dafarn y Westgate Inn (tua 1840) **(D2843/99)**

- **Llythyrau W.W. Phillips** (o Swyddfa Ystâd Parc Pont-y-pŵl) a J. Maughan, cyfreithiwr, ynghylch gorymdaith y Siartwyr i Gasnewydd; ac ynghylch y cyhuddiad o dwyll yn erbyn William Foster Geach, llysfab John Frost **(D124/202)**

- **Llythyrau Edmund Jones o Bulmore, Caerllion,** at Thomas Bevan Jones, yn disgrifio ei brofiad fel rheithiwr-sy'n-aros yn nhreialon y Siartwyr yn Nhrefynwy ac wrth ymweld â Chasnewydd yn dilyn Gwrthryfel y Siartwyr 1839-1840, **(D4683/1/2-5)**

- **Llythyr gan Philip David,** 7 oed, at ei gefnder Llewellin Thomas o Bont-y-pŵl, yn cyfeirio at Wrthryfel y Siartwyr, dyddiedig 23 Ionawr 1840 **(D5702/1)**

- **Llythyr gan Zephania Williams** at Dr A McKechnie yn amlinellu cynllun y Siartwyr i sefydlu gweriniaeth, 1840 **(MISCMSS/2028) (copi)**

- **Llythyrau Arthur Wellesley,** Dug cyntaf Wellington, yn cyfeirio at benodi Sarsiant Armstrong, milwr a oedd yn bresennol yng Ngwesty'r Westgate, i swydd yn Nhŵr Llundain, 1839, **(MISCMSS/2076/3)**

- **Printiau lithograff o arweinwyr y Siartwyr** John Frost, Zephaniah Williams a William Jones ar dreial yn Nhrefynwy (cyhoeddwyd gan Woodall, Y Fenni, tua.1840) **(D361/FP4/123)**

- **Llythyr gan y Siartydd Charles Waters** a ysgrifennwyd o Garchar Trefynwy, 1840 **(MISCMSS/234)** (llungopi)

- **Coffadwriaeth** ar ran John Frost, yn gweddïo am i'r pardwn a roddwyd i John Frost gael ei ymestyn ac iddo gael diweddu ei ddyddiau ym mynwes ei deulu 1853-1854 **(D43/359)**

- **Coffadwriaeth neu ddeiseb** trigolion Abersychan i Arglwyddi a Boneddigesau y Faenor, yn erbyn cau Gwaith Haearn y British, 1843. Mae'n rhestru 424 o lofnodyddion yn cynnwys William Shellard, a [?]Bar[nabus] Brough **(D454/927)**

- **Pecyn Addysg Y Siartwyr Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd (D6153)**

- **Toriadau o bapurau newydd** a gohebiaeth o flwyddyn y canmlwyddiant, 1938-1939 **(D396/424)**

- **Toriadau o bapurau newydd** o The Advocate (Tachwedd 1968, Ebrill 1988), a The Examiner (Ebrill 1988) yn cyfeirio at weithgarwch glofaol Zephaniah Williams yn Nhasmania a chofeb i Zephaniah Williams yn Latrobe. Mae'n cynnwys nodyn ar y Siartwyr yn Nhasmania gan Asa Briggs **(MISCMSS/2133)** (llungopïau)

- **Adroddiadau o bapurau newydd** o Dreialon y Siartwyr, o Monmouthshire Merlin, Merthyr Guardian, a'r Cambrian **(D124/881-895)**

- **Nodiadau ar Siartiaeth** gan R. T. Jones o'r Coed Duon, tua.1960 **(D4415/1)**

- **Papurau** yn ymwneud â The Coach and Horses yn y Coed Duon a'r cysylltiad at y Siartwyr, 1956 **(D3132/25)**

- **Cerdyn post** gan J. F. Mullock yn darlunio Ymosodiad y Siartwyr ar Westy'r Westgate, cyhoeddwyd am y tro cyntaf tua 1840 **(D2865/13)**

- **Casgliad y teulu Rolls (Arglwydd Llangatwg)** o hysbyslenni dangoslen a argraffwyd gan Heath's of Monmouth gyda'r capsiwn 'Dreadful Riot and Loss of Life at Newport' a 'Trial of the Chartist Chief Zephaniah Williams'; lithograffau o arweinwyr y Siartwyr Frost, Williams a Jones a gyhoeddwyd gan Woodall, Y Fenni, tua 1840 **(D361/FP4/123)**

- **Cofnodion gwasanaeth** (teipysgrif a luniwyd yn ôl-weithredol gan yr Amgueddfa Gatrodol) sy'n dangos bod y rhingylliaid Daily ac Armstrong wedi'u hanafu yng Ngwesty'r Westgate **(MISCMSS/213)** (llungopi)

- **Datgloi Achosion y Siartwyr** (ffilm a gynhyrchwyd gan Brosiect Cynefin), DVD **(D6154)**

Isod, ceir rhestr o ddogfennau sy'n ymwneud â'r rheiny fu'n gysylltiedig â gweithgarwch y Siartwyr, mewn perthynas a gweithgarwch personol neu fusnes yn hytrach na'u rolau fel Siartwyr:

- **Prydles wrthrannol** y pyllau glo o dan Fferm Bovil, Machen, gan gynnwys Zephania Williams, Gwerthwr Glo, o Montythusloyne 25 Rhagfyr 1828 **(D43/1491)**

- **Gwaharddeb** o Adran Siawnsri'r Uchel Lys i Zephania Williams ac eraill i'w hatal rhag codi glo ar ffermydd hawlfeddiant a enwir, 25 Chwefror 1826 **(D43/1491)**

- **Llythyrau Gweinyddu** ystâd Thomas Williams a oedd ym meddiant Zephaniah Williams, mab cyfreithlon a pherthynas agosaf, 1 Gorffennaf 1825 **(MISCMSS/2078)**

- **Mae casgliad Ystâd Nantyglo** yn cofnodi cytundeb ar gyfer gwerthu tafarn y Royal Oak yng Nglyn Nant-y-glo, gan gynnwys meddiant Zephaniah Williams yn 1839 **(D393/399)**

## Traethodau Hir heb eu Cyhoeddi

- Osmond, David, 'After the Rising: Chartism in Newport, 1840- 1848' (Prifysgol Cymru, Caerdydd M.A., 1995) **(Llyfrgell/4)**

- Thomas, Lois (?), A study of the Chartist Zephaniah Williams and of Chartism in Monmouthshire', (Eastbourne Training College, (?) tua 1950au **(D6396)**

- Howells, Patrick Mathias, 'Why did the only major outbreak of physical force Chartism in Britain occur in south-east Wales in 1839?' 1996. **(MISCMSS/1951)**

## Casgliad Papurau Newydd

Mae Archifau Gwent yn cadw copïau o:

- The Silurian and South Wales General Advertiser, 1838-1843, papur o Sir Frycheiniog a roddodd sylw helaeth i Siartiaeth ac y cyfrannodd y Siartydd o Gasnewydd, Samuel Etheridge, adroddiadau iddo **( BL/S),**
- Sawl rhifyn o'r Monmouthshire Merlin, Merthyr Guardian a'r Cambrian ar gyfer y cyfnod o (Awst) 1839 – (Mawrth) 1840 **(D124)**
- Llungopi o bapur newydd y Siartwyr, y Western Vindicator ar gyfer 7 Rhagfyr 1839 **(MISCMSS/610)**
- Gwasg Rydd Pont-y-pŵl, ar ficroffilm. Mae'r rhain yn cynnwys erthyglau a sylwebaeth am Siartiaeth, gan gynnwys ysgrifau coffa am farwolaeth rhai o'r Siartwyr. Gweler y mynegai i'r Wasg Rydd, sydd ar gael yn ystafell ymchwil Archifau Gwent



# Gwaith Wedi'i Gyhoeddi

Mae'r erthyglau/cyhoeddiadau isod i gyd ar gael yn ein llyfrgell gyfeirio fach, a gellir eu gweld ar y safle yn Archifau Gwent.

## Erthyglau mewn cyfnodolion

| Awdur | Teitl | Teitl y Cyfnodolyn |
|---|---|---|
| Anon. [J.H. Clark?] | Biography of Sir Thomas Phillips | The Usk Gleaner and Monmouthshire Record: A Local Register of Events and Magazine of Information (1878), Rhan 2 |
| Anon. [J.H. Clark?] | John Frost's pardon | The Usk Gleaner and Monmouthshire Record: A Local Register of Events and Magazine of Information (1878), Rhan 6 |
| Anon. [J.H. Clark?] | The Monmouthshire riots of 1839 | The Usk Gleaner and Monmouthshire Record: A Local Register of Events and Magazine of Information (1878), Rhan 7 |
| Bidder, Marie-Elaine | 'The Scotch Cattle in Monmouthshire, c. 1820-1825' | Gwent Local History: The Journal of Gwent Local History Council, Rhif 63 (1987), tudalennau 3-16 |
| Chase, Malcolm | 'Rethinking Welsh Chartism' | Llafur: Journal of Welsh People's History, Cyf. 10, Rhif 3 (2010) |
| Chase, Malcolm | 'A new account of George Shell and the Newport Rising' | Gwent Local History, Rhif 119 (2016), tudalennau 19-26 |

| Awdur | Teitl | Teitl y Cyfnodolyn |
|---|---|---|
| Clark, Arthur | 'Monmouthshire Chartists' | Presenting Monmouthshire, Rhif 39 (1975), tudalennau 10-25 |
| Evans, Arthur W | 'Sir Thomas Phillips, of Llanelen, Monmouthshire' (1801-1867) | Presenting Monmouthshire, Rhif 15 (1963), tudalennau 39-47 |
| Evans, John | 'William Shellard c.1797-1874: An old Chartist fades away' | Gwent Local History, Rhif 116 (2014), tudalennau 103-116 |
| Gibson, Colin | 'George Shell's letter revisited: some perspectives on its use at the Monmouthshire Chartist trials' | Gwent Local History, Rhif 116 (2014), tudalennau 33-49 |
| Haywood, John | 'W.H. Greene's Chartist Rising' | Gwent Family History Society Journal, Rhifau 42-44 (1996) |
| Haywood, John | 'His great-great grandfather was a Chartist' | Gwent Family History Society Journal, Rhif 48 (1997), tudalennau 11-14 |
| Holt, Gillian | 'The Westgate Hotel, Newport', | Gwent Local History, Rhif 67 (1989), |
| Hopkins, Tony | 'Policing the Rising:  the career of John Roberts police superintendent of Pontypool 1830-1860' | Gwent Local History, Rhif 116 (2014), tudalennau 67-88 |
| Howells, Patrick a Mathias Rhys | 'Why did the only major outbreak of "physical force" Chartism occur in south-east Wales in 1839?' | Gwent Local History, Rhif 83 (1997), tudalennau 17-33 |
| Hutchings, Christabel | 'A child comments on the Newport Rising of 1839' | Gwent Local History, Rhif 114 (2013) |
| Hutchings, Christabel | 'A juror's tale:  the travails of Edmund Jones at the Monmouth Chartist Trials' | Gwent Local History, Rhif 116 (2014), tudalennau 50-66 |

| Awdur | Teitl | Teitl y Cyfnodolyn |
|---|---|---|
| James, Les | 'The 'Confession' of Zephaniah Williams and the 1839 Rising', | Gwent Local History, Rhif 116 (2014), tudalennau 3-32 |
| Jones, Keith B | 'The religious climate of the Chartist insurrection at Newport, Monmouthshire, 4 November 1839: expressions of evangelicalism' | The Journal of Welsh Religious History, Cyf. 5 (1997), tudalennau 57-71 |
| Jones, Oliver | 'Zephaniah Williams the man and his mind' | Presenting Monmouthshire, Rhif 28 (1969), tudalennau 28-32 |
| Lovering, G.W.J | 'Nonconformity in the town of Newport' | Gwent Local History, Rhif 88 (2000), tudalennau 39-53 |
| Nichols, Reginald W | 'Chartists hidden fire, Barnabus and Frances Brough of Pontypool and the Chartists' | Gwent Local History, Rhif 55 (1983), tudalennau 30-40 |
| Osmond, David | 'After the Rising: Chartism in Newport, 1840-1848' | Gwent Local History, Rhif 98 (2005), tudalennau 8-52 |
| Osmond, David | 'Newport and the Chartist Land Plan' | Gwent Local History, Rhif 116 (2014), tudalennau 95-102 |
| Parsons, Frederick | 'The Monmouthshire treason trials' | Presenting Monmouthshire, Rhif 11 (1961), tudalennau 29-32 |
| Pitt-Lewis, C.J | 'John Frost's birthday' | Gwent Local History, Rhif 58 (1985) |
| Richards, Sarah | 'Finding Chartism in the family: William Davies of Blackwood' | Gwent Local History, Rhif 116 (2014), tudalennau 89-94 |
| Rogers, Gareth | 'Henry Vincent: the young Demosthenes' | Presenting Monmouthshire, Rhif 30 (1970), tudalennau 25-28 |

| Awdur | Teitl | Teitl y Cyfnodolyn |
|---|---|---|
| Rogers, Gareth | 'Henry Vincent: the idol removed' | Presenting Monmouthshire, Rhif 31 (1971), tudalennau 34-38 |
| Sanger, Lord George | 'How the Chartists spoiled Newport Fair' | Presenting Monmouthshire, Rhif 27 (1969), tudalennau 42-44 |
| Smith, T.G | 'A customs history of the port of Newport' | Gwent Local History, Rhif 46 (1979), tudalennau 7-38 |
| Strong, Peter | 'Demosthenes returns: Henry Vincent in Monmouthshire in 1849' | Gwent Local History, Rhif 121 (2017), tudalennau 46-55 |
| Tucker, Clifford | 'The prisoner in Monmouth gaol: a study of Henry Vincent' | Presenting Monmouthshire, Rhif 20 (1965), tudalennau 17-27 |
| Warner, John F.L.A | 'The Marshes estate and other properties of the Newport burgesses' | The Monmouthshire Review, Cyf. 1, Rhif 2 (Ebrill 1933), tudalennau 122-136 |
| Wilks, Ivor G. Hughes | 'Insurrections in Texas and Wales: the careers of John Rees' | The Welsh History Review, Cyf. 11, Rhif 1 (Mehefin 1982), tudalennau 67-91 |
| Williams, Chris | 'History, heritage and commemoration: Newport 1839-1989' | Llafur: Journal of Welsh Labour History, Cyf. 6, Rhif 1 (1992), tudalennau 5-16. |
| Williams, Chris | 'The great hero of the Newport rising: Thomas Phillips, Reform and Chartism' | The Welsh History Review, Cyf. 21, Rhif 3 (Mehefin 2003), tudalennau 481-511 |
| Williams, W.R. (golygydd) | Yn cynnwys adroddiadau am gynnwrf y Siartwyr yn Llanidloes a'r Drenewydd (Sir Drefaldwyn) ym mis Mai 1839 a gwrthryfel Sir Fynwy ym mis Tachwedd 1839 | Old Wales: A Monthly Magazine of Antiquities for Wales and the Borders, Cyf. 1 (1905), tudalennau 177-178, 243, 314-315 |


## Cyhoeddiadau Dethol

| Awdur | Teitl | Cyfeiriad neu leoliad |
|---|---|---|
| Arnot, R. Page | The Miners. A History of the Miners' Federation of Great Britain, 1889-1910 (Llundain, 1949) | Llyfrgell/3 |
| Bale, Islwyn | Through Seven Reigns: A History of the Newport Police Force, 1836-1959 (Pont-y-pŵl, 1959) | Llyfrgell/8 |
| Bradney, Syr Joseph Alfred | A History of Monmouthshire from the Coming of the Normans Into Wales Down to the Present Time: Cyfrol 5, Cantref Casnewydd (Cymdeithas Cofnodion De Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1993) | Llyfrgell/11 |
| Clark, Arthur C | The Story of Monmouthshire, Cyfrol 2, From the Civil War to Present Time (Trefynwy, 1979), tudalennau 94-130 | Llyfrgell/12 |
| Davies, James | The Chartist Movement in Monmouthshire (Casnewydd, 1939) | |
| Edwards, Arthur J | Thomas Thomas of Pontypool: radical puritan (Caerllion, 2009) | Llyfrgell/4 |
| Elliot, John | The Industrial Development of the Ebbw Valleys, 1780-1914 (Caerdydd, GPC, 2004) | Llyfrgell/19 |
| Elsas, Madeleine, gol. | Iron in the Making: Dowlais Iron Company Letters, 1782-1860 (Pwyllgor Cofnodion Sirol Morgannwg/Guest Keen Steel Co., 1960) | Llyfrgell/3 |
| Francis, Hywel and Smith, David | The Fed: A History of the South Wales Miners in the Twentieth Century | Llyfrgell/3 |
| Gray-Jones, Arthur | The History of Ebbw Vale (Rhisga, 1970) | Llyfrgell/15 |

| Awdur | Teitl | Cyfeiriad neu leoliad |
|---|---|---|
| Gurney, Joseph a Thomas | The Trial of John Frost for High Treason' | MISCMSS/1385 |
| Hanbury Tenison, Richard | The Hanburys of Monmouthshire (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1995) | Llyfrgell/13 |
| Harrison, David J | Monmouth and the Chartists (Trefynwy, 2009) | Acc 4878 |
| Howell, Raymond | A History of Gwent (Llandysul, 1988) | Llyfrgell/9, Llyfrgell/10 |
| Humphries, John | The Man from the Alamo: Why the Welsh Chartists Uprising of 1839 Ended in a Massacre (Sain Tathan, 2004) | Llyfrgell/4 |
| James, David | 'History of Nantyglo and Blaina' Llyfrgell Sirol Gwent. 1978. (Copi teipysgrif) | Llyfrgell/16 |
| James, Les | Render the Chartists Defenceless: John Frost's Voyage with Dr McKechnie to Van Diemen's Land in 1840 (Casnewydd, 2015) | Llyfrgell/A |
| Jones, Brynmor Pierce | From Elizabeth I to Victoria: The Government of Newport (Mon) 1550-1850 (Casnewydd, 1957) | Llyfrgell/8 |
| Jones, Ieuen Gwynedd | The Valleys in the Mid-nineteenth Century.  A Lecture (Cynhadledd Sefydlog am Hanes Cymoedd De Cymru, 1981) | Llyfrgell/8 |
| Jones, Oliver | The Early Days of Sirhowy and Tredegar (Cymdeithas Hanes Tredegar, 1969) | Llyfrgell/10 |
| Kissack, Keith | Monmouth:  The Making of a County Town (Chichester, 1975) | Llyfrgell/16 |
| Kissack, Keith | Victorian Monmouth (Ymddiriedolaeth Hanes ac Addysg Trefynwy, dim dyddiad) | Llyfrgell/16 |

| Awdur | Teitl | Cyfeiriad neu leoliad |
| --- | --- | --- |
| Kissack, Keith | The Trial of John Frost | Acc 2837 |
| Littlewood, Kevin | From Reform to the Charter: Merthyr Tydfil, 1832-1838 (Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful, 1990) | Acc 2784 |
| Mathews, James | Historic Newport (Casnewydd, 1910) | Llyfrgell/8 |
| Mee, Arthur (gol) | The King's England: Monmouthshire (Llundain, 1951) | Llyfrgell/12 |
| Mills, David | William Foster Geach: Stepson of and Solicitor to John Frost, the Chartist Leader (Gelligaer, 2015) | Llyfrgell/A |
| Mitchell, Thomas | Monmouthshire Iron and Steel Trade & Reminiscences of the Chartist Riots (Casnewydd, 1904) | Llyfrgell/3 |
| Morris, J.H. and Williams, L.J | The South Wales Coal Industry, 1841-1875 (Caerdydd, 1958) | Llyfrgell/3 |
| Oates, David William Rowland | The Story of Gwent: A School History and Geography of Monmouthshire (Caerdydd, 1910) | Llyfrgell/2 |
| Palmer, Roy | The Folklore of (Old) Monmouthshire (Henffordd, 1998) | Llyfrgell/12 |
| Phillips, Roger | Tredegar: The History of An Agricultural Estate, 1300-1956 (Dyfnaint, 1990) | Llyfrgell/2 |
| Powell, Evan | The History of Tredegar: Subject of Competition at Tredegar 'Chair Eisteddfod' held February 25 1884 (South Wales Argus Ltd., 1902) | Llyfrgell/17 |
| Underwood, Terry | Yesterdays Newport: A Pictorial Record Describing the Way We Were, Where We Lived ... (Casnewydd, 1980) | Llyfrgell/16 |

| Awdur | Teitl | Cyfeiriad neu leoliad |
| --- | --- | --- |
| Wharam, Alan | Treason: Famous English Treason Trials (Caerloyw, 1995) | Llyfrgell/4 |
| Wilkins, Charles F.G | The History of the Iron, Steel, Tinplate and Other Trades of Wales (Merthyr Tudful, 1903) | Llyfrgell/3 |
| Williams, Chris a Sian Rhiannon Williams (gol) | The Gwent County History, Cyfrol 4: Industrial Monmouthshire, 1780-1914 (Caerdydd, GPC, 2011) | Llyfrgell/11 |
| Williams, David | A History of Modern Wales (Llundain, 1950) | Llyfrgell/1 |
| Williams, Michael A | Researching Local History: The Human Journey (Essex, 1996) | Llyfrgell/22 |
| Wilson, John | Art and Society in Newport: James Flewitt Mullock and the Victorian Achievement (Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, 1993) | Llyfrgell/16 |



CHARTIST RIOT. 1839 ATTACK ON WESTGATE HOTEL, NEWPORT

# Cofnodion a Gedwir mewn Lleoliadau Eraill

Cedwir cofnodion sy'n ymwneud â gweithgarwch y Siartwyr mewn sefydliadau eraill hefyd, ac mae llawer ar gael ar-lein:

Cedwir y casgliadau canlynol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac maen nhw'n cynnwys llawer o ddogfennau am Siartiaeth.

- Casgliad Parc Tredegar– Gellir gweld rhestr o'r cofnodion sydd ar gael yn Ystafell Ymchwil Archifau Gwent. Mae bocsys 40 a 57 yng nghasgliad Parc Tredegar yn cynnwys adroddiadau am weithgarwch y Siartwyr ar ôl 1840, ymhlith eitemau eraill,
- Casgliad Castell Llangybi - yn cynnwys dogfennau o lyfrgell yr Uwchgapten Albert Addams Williams, gan gynnwys penderfyniad am Siarter y Bobl ym mis Hydref 1839 yn ogystal â briff ar gyfer yr Erlyniad yn erbyn Samuel Etheridge, deponiadau ynghylch William Jones a gwasanaeth o ddiolchgarwch i'r Hollalluog ar ôl methiant gwrthryfel y Siartwyr.

Cysylltwch â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gael rhagor o wybodaeth am y casgliadau hyn.

Cedwir dogfennau hefyd yng Nghasgliad y Siartwyr yn Amgueddfa a Llyfrgell Casnewydd, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn y cyhoeddiad *'John Frost and the Chartist Movement in Monmouthshire: Catalogue of Chartist Literature, Prints and Relics* etc' gan John Warner FLA a W. A. Gunn FRSA (Pwyllgor Canmlwyddiant Siartwyr Casnewydd, 1939). Trosglwyddwyd cofnodion Cyngor Bwrdeistref Casnewydd a restrir yn y canllaw hwn i Archifau Gwent tua 1974.

Mae ffeiliau o'r *Monmouthshire Beacon*, a gyhoeddwyd o 1837, yn cael eu cadw gan Amgueddfa Neuadd y Sir, Trefynwy. Mae copïau o'r *Western Vindicator* hefyd yn cael eu cadw yn y Llyfrgell Ganolog, Casnewydd, ac mae adnoddau'r Siartwyr wedi eu digido ar gael ar eu gwefan.

## Ffynonellau Ar-lein

- Mae copïau digidol o fapiau degwm Cymru tua 1840 ar gael ar https://lleoedd.llyfrgell.cymru/

- Gellir darllen llawer o bapurau ac adroddiadau seneddol ar https://archives.parliament.uk/online-resources/parliamentary-papers/

- Mae deponiadau'r Llysoedd Chwarter sy'n gysylltiedig â Siartiaeth, wedi'u digido, ynghyd â phapurau Treialon y Siartwyr a gedwir gan Lyfrgell Gyfeirio Casnewydd, a gellir eu gweld ar https://www.casgliadywerin.cymru/.

- Mae nifer o bapurau newydd Cymru, gan gynnwys Monmouthshire Merlin, wedi cael eu digido ac maen nhw ar gael ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac mae nifer o bapurau newydd a chyfnodolion unigol y Siartwyr wedi cael eu digido gan y Llyfrgell Brydeinig erbyn hyn ac ar gael ar eu gwefan.

# Geirfa

**Deddfau Uno:** Yn 1536 deddfodd llywodraeth Harri'r VIII fesur a wnaeth newidiadau pwysig i'r ffordd y llywodraethwyd Cymru. Roedd Statud Cymru (1284) wedi atodi Cymru at goron Lloegr, ond roedd y ddeddf newydd yn datgan dymuniad y brenin i ymgorffori Cymru yn y deyrnas. Un o'i phrif effeithiau oedd sicrhau rhannu'r Gororau yn siroedd ("the shiring of the Marches"), gan ddod ag arglwyddiaethau niferus y Mers o fewn  system gynhwysfawr o siroedd. Am y tro cyntaf yn ei hanes, byddai cyfiawnder yn cael ei weinyddu yn yr un ffordd ledled Cymru. Byddai'r Cymry yn cael yr un statws gwleidyddol â'r Saeson, a chyfraith gwlad  Lloegr, yn hytrach na chyfraith Cymru.

**Cofrestrau Derbyn a Rhyddhau:** Mae'r cofnodion hyn yn gyfrif manwl o unigolion a dderbyniwyd i sefydliadau ysbyty a wyrcws ac a ryddhawyd. Maen nhw fel arfer yn cynnwys gwybodaeth fel enwau, dyddiadau derbyn a rhyddhau, oedran wrth gael eu derbyn, statws priodasol, galwedigaeth, rheswm dros dderbyn neu p'un ai ydyn nhw'n sengl, yn briod neu'n weddw.

Byrddau Gwarcheidwaid: Byrddau Gwarcheidwaid oedd yn rhedeg system Deddf y Tlodion yng Nghymru, Lloegr ac Iwerddon rhwng 1835 a 1930. Cymerwyd yr awenau oddi wrth y plwyfi.  Roedd y byrddau'n gweinyddu'r wyrcws o fewn undeb Deddf y Tlodion a oedd yn grŵp o blwyfi. Cawsai'r gwarcheidwaid eu hethol gan berchnogion tir a thirfeddianwyr y plwyf a oedd yn gorfod talu cyfradd y tlodion.

**Hysbyslenni Dangoslen:**  Posteri neu daflenni a ddefnyddiwyd i gyhoeddi archddyfarniadau cyhoeddus, hysbysiadau llywodraethol a llu o gyhoeddiadau masnachol a phreifat oedd hysbyslenni dangoslen. Cynhyrchwyd dangoslenni cynnar yn gyflym ac yn fras mewn sympiau mawr a'u dosbarthu'n rhydd mewn sgwariau trefi, tafarndai ac eglwysi. Gwerthwyd rhai gan werthwyr teithiol, neu bedleriaid, am dâl nominal.

**Calendrau Carcharorion:** Mae'r calendrau hyn yn rhestrau, mewn print gan fwyaf, o garcharorion a dreialwyd mewn Brawdlysoedd a Llysoedd Chwarter. Maen nhw'n cynnwys y wybodaeth ganlynol: rhif; enw; oed; crefft; euogfarnau blaenorol; enw a chyfeiriad yr ynad a oedd yn cyflwyno'r carcharor; dyddiad y warant; pryd y daeth i mewn i'r ddalfa; y drosedd fel y nodwyd yn y cyflwyniad (gan gynnwys enw'r dioddefwr cyn 1969); pryd y cafodd ei dreialu; gerbron pwy y cafodd ei dreialu; rheithfarn y rheithgor; dedfryd neu orchymyn y llys.

**Cofrestriad Sifil:** Cyflwynwyd Deddf Cofrestru Sifil 1837 i gofrestru'r holl gofnodion genedigaethau, priodasau a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr. Cyn hynny, cofnodwyd yn y cofnod plwyf lleol.  Cofnodwyd bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau yn yr eglwys leol. Fodd bynnag, ar ôl 1837, daeth yn gyfrifoldeb cenedlaethol i gofnodi genedigaethau, priodasau a marwolaethau gyda'r swyddog llywodraeth leol, y cofrestrydd, mewn cofrestr a gynhaliwyd ganddo.

**Clerc yr Heddwch:**  Roedd gan glerc yr heddwch swyddogaeth yng Nghymru a Lloegr a'i gyfrifoldeb oedd cofnodion y llysoedd chwarter a fframio presentiadau a ditmentau. Cawsent hyfforddiant cyfreithiol, i'w galluogi i gynghori ynadon heddwch.

**Deponiad:** Tystiolaeth a roddwyd dan lw ac a nodwyd yn ysgrifenedig gan swyddog awdurdodedig y llys.

**Cospty:** Math o sefydliad a adeiladwyd ar ôl pasio Deddf Cymorth y Tlodion 1601 oedd y cospty, ac yma yr anfonwyd y rheiny a oedd yn "amharod i weithio", gan gynnwys crwydriaid a chardotwyr, i weithio.

**Ditment:** Dyma'r datganiad ffurfiol o'r cyhuddiad yn erbyn y sawl a gyhuddwyd, ac fel arfer roedd wedi'i anodi â phle, dyfarniad a dedfryd.

**Lithograff:** Mae lithograff yn gelf weledol sy'n golygu darlunio plât lithograffig delwedd (fel darn o galchfaen) ac yna ei drin â hydoddiant asidig a dŵr a'i stampio ar ddalen o bapur. Yna, mae artistiaid yn gorchuddio'r garreg wedi'i thrin gyda math arbennig o inc, sy'n creu delwedd wedi'i hargraffu.

**Llyfr Cofnodion:** Llyfr sy'n cynnwys y cofnod ysgrifenedig o'r hyn a ddwedwyd ac a benderfynwyd yn ystod cyfarfod.

**Anghydffurfiwr:** Aelod o Eglwys Brotestannaidd sy'n anghytuno ag Eglwys sefydledig Lloegr.

**Goruchwylwyr y Tlodion:** Roedd goruchwylydd y tlodion yn swyddog a weinyddai Gymorth i'r Tlodion, er enghraifft arian, bwyd a dillad.

**Undeb Deddf y Tlodion:** Tiriogaeth ddaearyddol ac uned o lywodraeth leol ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon oedd Undeb Deddf y Tlodion.

**Wyrcws:** Sefydliad oedd y wyrcws, a'i fwriad oedd darparu gwaith a lloches ar gyfer pobl dlawd a oedd heb fodd i gynnal eu hunain.

# Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cofnodion sydd gennym, neu sut i ddechrau eich ymchwil, cysylltwch â ni yn:

Archifau Gwent
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Steelworks Road
Glyn Ebwy NP23 6AA
Ffôn: 01495 766261
enquiries@gwentarchives.gov.uk
www.gwentarchives.gov.uk